

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Haen Opsiynol yr SFS:

# Troi'n Organig

# Sut i Wneud Cais

# Cynnwys

Pwysig: ...3
ADRAN 1 - DECHRAU ARNI ...4
RPW Ar-lein ...4
Haen Opsiynol yr SFS: Cais Troi'n Organig ...5
ADRAN 2 – GOLWG AR Y BOTYMAU RHEOLI ...7
ADRAN 3 – Y CAIS ...8
Dechrau ar y Cais ...8
Cyflwyniad ...9
Hysbysiad Preifatrwydd ...10
Cwestiynau Pwy sy'n Gymwys ...11
Parseli Sydd Wedi'u Dewis ...13
Tudalen Gyflwyno – Gwallau, Gwybodaeth a Chrynodeb ...18
Tudalen Gyflwyno – Datganiadau ac Ymrwymiadau ...20
Tudalen Gyflwyno – Cyflwyno ...21
Yn Dilyn Cyflwyno Llwyddiannus ...22
Beth sydd yn digwydd Nesaf ...22
Cysylltiadau ...23

© Hawlfraint y Goron 2022 WG52599 ISBN: 978-1-80633-153-6

## Haen Opsiynol yr SFS: Troi’n Organig - Cais

## Defnyddio RPW Ar lein i Wneud Cais

## Pwysig:

Bydd y cyfarwyddiadau hyn yn rhoi arweiniad cam wrth gam i chi ar sut i gwblhau’ch Haen Opsiynol yr SFS: Cais Troi’n Organig.

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu’r canllaw yn y Gymraeg a’r Saesneg, yn unol â Chynllun Iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru. Os hoffech gopi o’r canllaw hwn yn yr iaith arall, gallwch fynd ati o llyw.cymru trwy glicio ar y dewisydd iaith ar dop y dudalen ac ailagor y ddogfen.

Os ydych yn cael trafferth neu os nad ydych yn gallu gweld ein gwefan, ffoniwch Ddesg Gymorth RPW Ar-lein ar 0300 062 5004.

# ADRAN 1 - DECHRAU ARNI

## RPW Ar-lein


Mewngofnodwch i’ch Cyfrif RPW Ar-lein.

Os ydych yn cael trafferth neu os nad ydych yn gallu mynd i’ch cyfrif ar-lein, ffoniwch Desg Gymorth RPW Ar-lein ar 0300 062 5004.


Ar ôl i chi fewngofnodi i’ch cyfrif ar-lein fe welwch dudalen ‘Hafan’ RPW Ar-lein. Bydd y dudalen hon yn dangos gwybodaeth a negeseuon yr ydych wedi'u derbyn neu eu hanfon, a byddwch yn gallu dechrau llenwi a chyflwyno unrhyw geisiadau sydd ar gael.

# Haen Opsiynol yr SFS: Cais Troi'n Organig

I ddechrau eich Haen Opsiynol yr SFS: Cais Troi'n Organig, cliciwch y ddolen briodol odan yr ardal **Cynllun Ffermio Cynaliadwy** fel y dangosir:




Cliciwch **Dangosfwrdd Haen Opsiynol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy**



Dewis **Organig**

## Dangosfwrdd Haen Opsiynol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy

### Categorïau

Mae'r dangosfwrdd hwn yn dangos yr holl categorïau sydd ar gael ar gyfer gweithredoedd / eitemau Opsiynol.

Dewiswch y categori yr hoffech wneud cais amdano o'r rhestr isod.

Gallwch hefyd ddewis Thema Opsiynol drwy glicio ar y dolenni ar ochr dde'r dangosfwrdd hwn. Yma gallwch weld y gweithredoedd / eitemau sydd ar gael o dan bob Thema.

Cyfalaf – yr Amgylchedd
Cynigir cymorth ar gyfer gweithredoedd a gynlluniwyd i fod o fudd i fywyd gwyllt, dal carbon a helpu i reoli ansawdd a llif dŵr, yn ogystal â bod o fudd i'ch fferm trwy ddarparu ffiniau diogel neu fannau cysgodi.

Cyfalaf – Cynhyrchu ac Effeithlonrwydd
Cynigir cymorth ar gyfer offer i alluogi gwaith rheoli priddoedd a thail yn fanwl, a monitro perfformiad cnydau neu dda byw.

Safleoedd dynodedig
Cymorth ar gael ar ôl creu Rhaglen Waith y Cynllun Rheoli Safleoedd Dynodedig o dan UA7. Bydd y rhain yn cael eu targedu'n benodol ar gyfer y cynefinoedd o fewn ardal ddynodedig eich fferm, gan gydnabod y cyflwr maen nhw ynddo ar hyn o bryd, a chyfleoedd i'w gwella.

Adolygiad o Gynefinoedd a Gweithredoedd Cynefinoedd
Gofynnwch am ymweliad â'r fferm i adolygu'r mesurau rheoli presennol a datblygu Cynllun Rheoli Cynefinoedd ar gyfer y fferm. Bydd gweithredoedd ar gael drwy Raglen Waith yr Adolygiad o Gynefinoedd, a fydd yn cynnwys set o weithredoedd cynefinoedd, ac o bosibl rhywfaint o waith cyfalaf ategol sy'n berthnasol i'r cynefinoedd ar eich fferm, a'r cyfleoedd i'w gwella.

Seilwaith ac Offer
Cynigir cymorth ar gyfer buddsoddiadau seilwaith buarth fferm ar raddfa fawr ac offer arall a ddewiswyd i reoli maethynnau yn well, lleihau llygredd ar y fferm a gwella bioddiogelwch.

Organig
Cynigir cymorth i ffermwyr sy'n cyflenwi'r farchnad organig ac ar gyfer yr ystod o fanteision amgylcheddol a ddarperir gan reolaeth organig gyfannol.

Pori yn ôl Thema

- Gwella Iechyd y Pridd a Chnydau Gorchudd Amlrywogaeth
- Cynhyrchu Cynaliadwy
- Rheoli Cynefinoedd yn Well
- Gweld pob thema

Dewiswch 'Parhau' yn adran **Haen Opsiynol yr SFS: Cais Troi'n Organig**

Taliadau Gwledig Cymru
RPW Ar-Lein Online
Rural Payments Wales
Llywodraeth Cymru Welsh Government

Joanne Gibson - Yn edrych ar CRN: A (Newid Cwsmer) Eich proffil English | Allgofnodi

Hafan | Manylion y CRN | Tir | Gohebiaeth 93 | Ffurflenni | Contractau a Grantiau Bach | Cynlluniau | Cynllun Ffermio Cynaliadwy

<Gweld pob categori

## Organig

Cymorth ariannol ar gyfer troi o ffermio confensiynol i gynhyrchu organig.
Mae hwn yn gymorth sy'n seiliedig ar arwynebedd sydd ar gael i gynhyrchwyr amaethyddol presennol ledled Cymru sy'n dymuno newid o gynhyrchu confensiynol i gynhyrchu organig. Drwy gefnogi ffermwyr yn ystod y cyfnod trawsnewid dwy flynedd, y nod yw darparu cymorth i sicrhau manteision rheoli tir ac amgylcheddol cadarnhaol. Mae Troi'n Organig yn ddyfarniad grant 5 mlynedd a gaiff ei ariannu am y 2 flynedd gyntaf.
Cymorth i gynhyrchwyr sy'n cynnal ardystiad organig llawn.
Mae Cymorth Organig yn darparu taliad fesul hectar ar gyfer tir cymwys ac mae ar gael i gynhyrchwyr amaethyddiaeth organig presennol ledled Cymru sy'n cynnal ardystiad organig llawn drwy gydol y flwyddyn galendr.

Canllaw

- Haen Opsiynol yr SFS Troi'n Organig: Canllawiau Sut i Wneud Cais
- Haen Opsiynol yr SFS Troi'n Organig: Llyfryn Rheolau

### Ceisiadau yn y categori hwn



**Haen Opsiynol yr SFS: Cais Troi'n Organig**

Mae'r cais hwn yn caniatáu ichi wneud cais am gyllid ar gyfer Troi'n Organig.
Os ydych chi'n credu y gallai eich cynlluniau fod yn gymwys ar gyfer y cymorth hwn, gallwch ddewis parseli caeau cyfan o restr Parseli wedi'u Dewis a lenwyd ymlaen llaw ac os ydych chi'n gynhyrchydd Llaeth sydd eisiau gwneud cais am gyfradd talu'r Fenter Odro, gallwch ymgeisio am hyn fel rhan o'r cais.
I gael canllawiau ar sut i ddefnyddio'r ffurflen, cyfeiriwch at Haen Opsiynol yr SFS Organig: Canllawiau Sut i Wneud Cais.

Parhau

# ADRAN 2 – GOLWG AR Y BOTYMAU RHEOLI


Dyma olwg ar y botymau rheoli sy'n ymddangos ar bob tudalen. Bydd angen i chi eu defnyddio i lenwi'ch Cais:

| | |
|---|---|
|  | Ar ochr chwith isa’r dudalen. Bydd y botwm hwn yn gadael i chi newid iaith eich Cais. |
|  | Ar ochr chwith ucha’r dudalen. Bydd y botwm hwn yn mynd â chi at ddogfen D*efnyddio RPW Ar-lein i wneud cais* y cynllun*.* |
|  | Ar ochr dde uchaf ac ochr dde isa’r dudalen. Bydd y botymau hyn yn mynd â chi yn ôl ac ymlaen rhwng tudalennau'ch Cais. |
|  | Ar ochr chwith isa’r dudalen. Bydd y botwm hwn yn gadael i chi argraffu ciplun o'ch Cais fel y mae. **Pwysig**: Ni fyddwn yn derbyn copïau wedi'u hargraffu o'ch Cais. |
|  | Ar ochr dde uchaf ac ochr dde isa’r dudalen. Cliciwch ar y botwm hwn i gadw unrhyw newidiadau. Gallwch hefyd glicio'r botwm hwn i weld a yw’r newidiadau rydych wedi’u gwneud yn dderbyniol. |
|  | Ar ochr chwaith isa’r dudalen. Cliciwch arno i adael eich Cais. Bydd newidiadau’n cael eu cadw yn awtomatig. |
|  | Mae'r arwyddion hyn yn ymddangos wrth ochr pob adran o'ch Cais, ar ochr chwith y dudalen. |
|  | Mae'r tic gwyrdd yn ymddangos os ydy’r wybodaeth mewn adran yn dderbyniol. |
|  | Mae'r groes goch yn ymddangos os oes adran/tudalen heb ei gweld eto, neu os oes angen cywiro camgymeriad. |
|  | Mae'r eicon Gwybodaeth glas yn ymddangos os oes neges gwybodaeth wedi’i chreu am fod newid wedi’i wneud i’r ffurflen. |

# ADRAN 3 – Y CAIS

## Dechrau ar y Cais


Ar ôl dewis y ddolen briodol i ddechrau y Cais, byddwch yn gweld y dudalen ganlynol.




Cyn cychwyn, cadarnhewch fod eich manylion yn gywir.  Os oes angen, gallwch eu newid drwy glicio ar **Fanylion y Cwsmer** neu **Dewisiadau Ar-lein**.

Os yw'r manylion sy'n cael eu dangos yn gywir, dewiswch y botwm **Dechrau**. Bydd hyn yn eich arwain at sgrin y Cyflwyniad.

**Pwysig:** Os byddwch yn gadael Cais ar ei hanner, caiff y newidiadau eu cadw i chi allu ei orffen wedyn. Pan ewch yn ôl ato, bydd y dudalen **Parhau â Chais** yn ymddangos. Ond bydd opsiwn i ailddechrau trwy glicio ar **Ddechrau Eto.** Bydd hynny'n dileu'ch Cais presennol a gallwch ddechrau'r broses gyflwyno eto.



## Parhau â Chais parhau â chais neu hawliad

Rydych wedi gofyn am gael llenwi'r cais canlynol ar-lein: **SFS Opsiynol: Cais Troi'n Organig.** Rydych wrthi'n gweithio ar eich ffurflen. Cliciwch ar 'Parhau' i symud ymlaen â **SFS Opsiynol: Cais Troi'n Organig.**

Cewch ddewis dileu'ch **SFS Opsiynol: Cais Troi'n Organig** presennol a dechrau eto. Trwy wneud, byddwch yn dadwneud y newidiadau sydd wedi'u gwneud ers ichi ddechrau'ch **SFS Opsiynol: Cais Troi'n Organig** a llenwir y **SFS Opsiynol: Cais Troi'n Organig** newydd â'r data diweddaraf. Os ydych am wneud, cliciwch 'Dechrau Eto'.

Bydd RPW Ar-lein yn gofyn i chi am yr wybodaeth sydd ei hangen ar y ffurflen. Drwy ddechrau llenwi'r ffurflen ar-lein, nid ydych yn ymrwymo i'w chyflwyno ar-lein; gallwch adael y broses ar unrhyw adeg. Os ydych chi'n gadael y ffurflen, gallwch ddychwelyd yn ôl ati rywbryd arall i'w chwblhau. Bydd RPW Ar-lein wedi arbed yr wybodaeth y byddwch wedi'i nodi yn eich sesiwn flaenorol.

Ni fydd y ffurflen yn cael ei hanfon i Lywodraeth Cymru nes eich bod yn clicio ar 'Anfon' ar ddiwedd y broses. Unwaith eich bod wedi'i chyflwyno, ni fyddwch yn gallu gwneud newidiadau iddi gyda RPW Ar-lein.

Mae'n rhaid i chi anfon y ffurflen i Lywodraeth Cymru erbyn . Ni fyddwch yn gallu anfon eich ffurflen ar ôl y dyddiad hwn hyd yn oed os ydych chi wedi dechrau llenwi'r ffurflen cyn .

Os oes gennych chi broblemau yn llenwi **SFS Opsiynol: Cais Troi'n Organig** yna gallwch chi gysylltu â'r 'Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid' am ragor o gymorth.

Cofiwch wneud yn siŵr bod Manylion y Cwsmer a'r Dewisiadau Ar-lein a nodir isod yn gywir cyn anfon y ffurflen. Os ydyn nhw'n anghywir, gallwch eu newid nawr drwy glicio ar y dolenni Manylion y Cwsmer neu Dewisiadau Ar-lein isod.

Manylion y Cwsmer

**Enw Masnachu**

**Cyfeiriad**

**Côd Post**

**Rhif Ffôn**

**Cyfeiriad e-bost**

**Nifer y Partneriaid** 3

Dewisiadau Ar-lein

**E-bost neu neges destun (SMS) gan RPW**

**Cyfeiriad e-bost**

**Rhif ffôn symudol**


Parhau i weithio ar **SFS Opsiynol: Cais Troi'n Organig** a gafodd ei ddiweddaru ar 16/07/2026 am 11:53 gan

Parhau | Yn ôl

## Cyflwyniad

Mae'r dudalen hon yn rhoi negeseuon pwysig i chi am eich Cais. Gwnewch yn siŵr eich bod yn eu darllen yn ofalus cyn dechrau.

Mae dolen arni hefyd i fynd â chi at y SFS Opsiynol: Troi'n Organig Llyfryn Rheolau a'r SFS Opsiynol: Troi'n Organig Sut i wneud cais ar wefan Llywodraeth Cymru.





Ar ôl i chi ddarllen a deall y Llyfryn Rheolau a'r Prif Negeseuon, cliciwch ar '**Nesaf**' i symud ymlaen at sgrin nesaf y Cais.

# Hysbysiad Preifatrwydd

Mae'r sgrin hon yn esbonio sut bydd Llywodraeth Cymru yn delio â gwybodaeth a gyflwynir fel rhan o'ch cais.

Gofalwch eich bod yn darllen ac yn deall sut y bydd eich data’n cael eu defnyddio.




## Hysbysiad preifatrwydd: grantiau Llywodraeth Cymru

Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn dweud wrthych sut y byddwn yn ymdrin ag unrhyw ddata personol a ddarperir gennych mewn perthynas â'ch cais am grant neu gyllid.

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu amrywiol gynlluniau grant er mwyn helpu i gyflawni ein polisïau a chreu Cymru decach, fwy ffyniannus.

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych mewn perthynas â'ch cais am grant neu gyllid. Bydd yr wybodaeth yn cael ei phrosesu fel rhan o'n gorchwyl cyhoeddus (h.y. arfer ein hawdurdod swyddogol i ymgymryd â rôl a swyddogaethau craidd Llywodraeth Cymru) ac yn ein helpu i asesu a ydych yn gymwys i gael cyllid.

Cyn rhoi cyllid grant i chi, rydym yn cynnal gwiriadau er mwyn atal twyll ac achosion o wyngalchu arian, ac i wirio pwy ydych chi. Fel rhan o'r gwiriadau hyn, mae'n ofynnol i ni brosesu data personol amdanoch chi gydag asiantaethau atal twyll trydydd parti.

Os byddwn ni, neu asiantaethau atal twyll, yn penderfynu eich bod yn peri risg o ran twyll neu wyngalchu arian, efallai y byddwn yn gwrthod â darparu'r cyllid grant rydych wedi gwneud cais amdano, neu'n rhoi'r gorau i ddarparu'r cyllid grant presennol i chi.

Bydd yr asiantaethau atal twyll yn cadw cofnod o unrhyw risg o dwyll neu wyngalchu arian, a gallai hyn arwain at bobl eraill yn gwrthod â darparu gwasanaethau, cyllid neu gyflogaeth i chi.

Er mwyn asesu cymhwysedd efallai y bydd angen i ni hefyd rannu gwybodaeth bersonol sy'n ymwneud â'ch cais gydag awdurdodau Rheoleiddio, megis Cyllid a Thollau EM, Awdurdodau Lleol, yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch a'r Heddlu.

Gall eich gwybodaeth, gan gynnwys eich gwybodaeth bersonol, fod yn destun cais gan aelod arall o'r cyhoedd. Wrth ymateb i geisiadau o'r fath efallai y bydd yn ofynnol i Lywodraeth Cymru ryddhau gwybodaeth, gan gynnwys eich gwybodaeth bersonol, i gyflawni ei rhwymedigaethau o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Deddf Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 neu Ddeddf Diogelu Data 2018.

Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi manylion y symiau a dalwyd i fuddiolwyr Cymorth Gwledig. Cyhoeddir data ar gyfer pob buddiolwr ar wefan y gellir chwilio arni, a bydd yn cynnwys enw a lleoliad y ffermwr/rheolwr tir a manylion y symiau ac enw'r cynllun. Ond, ni ddatgelir enwau'r rheini sy'n cael llai na'r hyn sy'n gyfwerth â £1,250 mewn cymorthdaliadau. Cyhoeddir y data bob blwyddyn ar 31 Mai a bydd y data ar gael am ddwy flynedd o'r dyddiad y cawsant eu cyhoeddi.

Byddwn yn cadw gwybodaeth bersonol mewn ffeiliau yn unol â'n polisi cadw gwybodaeth. Os bydd eich cais yn llwyddiannus, byddwn yn cadw eich data personol am 7 mlynedd ar ôl y dyddiad pan fyddwch chi, fel derbynnydd y grant, yn rhydd rhag holl amodau'r grant, a phob taliad wedi'i wneud. Fodd bynnag, os yw'r cyllid yn cael ei ddyfarnu dan yr Esemptiad Bloc Cyffredinol neu De Minimis, bydd eich data personol yn cael eu cadw am 10 mlynedd ar ôl i unrhyw ddyfarniad o gymorth ddod i ben. Os bydd eich cais yn aflwyddiannus, byddwn yn cadw eich manylion am flwyddyn ar ôl y dyddiad y gwnaethoch eu darparu.

O dan ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl wneud y canlynol:

- gweld y data personol sydd gan Lywodraeth Cymru amdanoch
- gofyn inni gywiro unrhyw ddata anghywir
- gwrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data (dan rai amgylchiadau)
- gofyn i'ch data gael eu dileu (dan rai amgylchiadau)
- cyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, sef y rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth sydd gan Lywodraeth Cymru a sut mae'n cael ei defnyddio, neu os ydych am ymarfer eich hawliau o dan GDPR, mae'r manylion cyswllt isod:

Swyddog Diogelu Data:

Unwaith eich bod wedi darllen yr wybodaeth cliciwch ar y botwm **Nesaf**.

# Cwestiynau Pwy sy’n Gymwys

Byddwch yn cael eich ystyried yn gymwys i wneud cais os ydych wedi hawlio Haen Gyffredinol yr SFS ar Ffurflen Gais Sengl (SAF) 2026.


Dim ond ar ôl cadarnhau'ch bod yn gymwys y bydd eich cais yn cael ei ystyried.


Mae’n rhaid ichi ateb pob cwestiwn ar y dudalen hon.

Rhaid i'r holl dir sy'n cael ei gynnwys mewn gwobr grantiau o dan y SFS Opsiynol: Troi'n Organig gael ei ardystio'n barhaus gan Gorff Rheoli Organig am bum mlynedd, gan ddechrau ar 1 Ionawr 2027.

Caiff cynhyrchwyr organig presennol wneud cais ar gyfer tir nad yw wedi'i ardystio'n organig ar hyn o bryd neu nad yw'n cael ei droi'n organig ar hyn o bryd.

Mae’r system yn archwilio data sylfaenol ar y dudalen hon a bydd gwallau neu negeseuon gwybodaeth yn ymddangos wedi ichi glicio ‘Safio’ neu ‘Nesaf’.






Unwaith y byddwch wedi cwblhau rhoi'r wybodaeth i fewn cliciwch ar y **Botwm Nesaf**.

## Parseli Sydd Wedi'u Dewis

Dim ond ar gaeau cyfan y gallwch wneud cais ac ni fyddwch wedi dechrau eu troi'n organig. Rhaid ichi ddechrau troi'r caeau'n organig ar 1 Ionawr 2027.

Nid oes rhaid i chi gynnwys yr holl dir ar eich daliad yn eich cais ar gyfer yr SFS Opsiynol: Troi'n Organig.

Rhaid i chi allu gwarantu y bydd y tir o dan eich rheolaeth lwyr am bum mlynedd y dyfarniad grant, gan ddechrau 1 Ionawr 2027.

Bydd gennych reolaeth lwyr os;


- mai chi yw perchennog a meddiannydd y tir,
- ydych yn denant sydd â 'meddiant llwyr' ar y tir naill ai o dan Ddeddf Tenantiaethau Amaethyddol 1995 gyda Thenantiaeth Busnes Fferm neu denantiaeth lawn o dan Ddeddf Daliadau Amaethyddol 1986.
- tenant â thenantiaeth lafar â'r un lefel o reolaeth â'r uchod.
- os ydych wedi caniatáu trwyddedai o dan drefniant trwyddedu penodol ar gyfer pori, tyfu cnwd neu ladd gwair/silwair dros gyfnod penodedig a chyfyngedig o amser o fewn y flwyddyn, ond eich bod wedi cadw rheolaeth ar y tir

Tir Comin sy'n cael ei bori a chi yw'r unig borwr cofrestredig (Tir Comin ag Un Porwr). Mae'n rhaid i'r parseli tir hyn gael eu cofrestru ar System Adnabod Parseli Tir (LPIS) RPW.

Yn y tabl isod mae pob un o'ch parseli tir cofrestredig, dewiswch y parseli tir sy'n bodloni'r meini prawf cymhwysedd rydych chi am eu cofrestru i'w SFS Opsiynol: Troi'n Organig. Gallwch ddefnyddio'r sgrin hon i ychwanegu parseli tir nad ydynt wedi'u cofrestru gyda RPW ar hyn o bryd, ond mae'n rhaid i chi gyflwyno ffurflen Rheoli Fy Nhir ochr yn ochr â'r cais hwn. Darllenwch y SFS Opsiynol: Troi'n Organig Llyfryn Rheolau i sicrhau bod y parseli tir yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd.

Nid oes rhaid i chi gynnwys pob tir ar eich talu ar gyfer SFS Opsiynol: Troi'n Organig.

I ddewis parsel cliciwch ar **Addasu**



SFS Opsiynol: Cais Troi'n Organig

Help

Cyflwyniad

Hysbysiad Preifatrwydd

Cymhwystra

Parseli sydd wedi'u dewis

Cyflwyno

Printio English


Parseli sydd wedi'u dewis

Yn ôl Safio Nesaf

Rhestr o Barseli

Yn y tabl isod mae pob un o'ch parseli tir cofrestredig, dewiswch y parseli tir sy'n bodloni'r meini prawf cymhwysedd rydych chi am eu cofrestru i'w Troi'n Organig. Gallwch ddefnyddio'r sgrin hon i ychwanegu parseli tir nad ydynt wedi'u cofrestru gyda RPW ar hyn o bryd, ond mae'n rhaid i chi gyflwyno ffurflen Rheoli Fy Nhir ochr yn ochr â'r cais hwn. Darllenwch y Haen Opsiynol yr SFS Troi'n Organig: llyfryn rheolau. i sicrhau bod y parseli tir yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd.

| Cyfeirnod y Daflen | Rhif y Cae | Enw'r Cae | Arwynebedd y Cae | Arwynebedd Organig Cymwys | Wedi'i ddewis | Ychwanegu Parsel Tir |
|---|---|---|---|---|---|---|
| SO0462 | 3722 | | 0.27 | 0.26 | | Addasu |
| SO0462 | 2810 | | 1.71 | 1.71 | | Addasu |
| SO0462 | 2722 | | 1.06 | 1.06 | | Addasu |
| SO0462 | 2633 | | 1.90 | 1.90 | | Addasu |
| SO0462 | 1715 | | 1.10 | 1.10 | | Addasu |
| SO0462 | 1107 | | 1.29 | 1.29 | | Addasu |
| SO0462 | 0721 | | 2.74 | 2.74 | | Addasu |
| SO0362 | 9416 | | 0.99 | 0.99 | | Addasu |
| SO0362 | 8023 | | 3.17 | 3.17 | | Addasu |
| SO0362 | 7315 | | 1.51 | 0.52 | | Addasu |
| SO0362 | 5031 | | 5.60 | 4.45 | | Addasu |
| SN9455 | 4407 | | 4.32 | 4.32 | | Addasu |
| SN9454 | 6020 | | 3.60 | 3.60 | | Addasu |
| SN9454 | 5999 | | 5.96 | 3.56 | | Addasu |
| SN9454 | 5668 | | 5.96 | 5.83 | | Addasu |



SFS Opsiynol: Cais Troi'n Organig

Help

Cyflwyniad

Hysbysiad Preifatrwydd

Cymhwystra

Parseli sydd wedi'u dewis

Cyflwyno

Printio English

Parseli sydd wedi'u dewis - Rhestr o Barseli


Canslo Cadw a Dychwelyd

| | |
|---|---|
| Cyfeirnod y Daflen | SO0462 |
| Rhif y Cae | 2810 |
| Enw'r Cae | |
| Arwynebedd y Cae | 1.71 |
| Arwynebedd Organig Cymwys | 1.71 |
| Wedi'i ddewis | ☑ |

Canslo Cadw a Dychwelyd

Cliciwch Cadw a Dychwelyd

Bydd y parsel yn cael ei ddangos ar y sgrin heb dic


SFS Opsiynol: Cais Troi'n Organig

A | Help

- Cyflwyniad
- Hysbysiad Preifatrwydd
- Cymhwystra
- Parseli sydd wedi'u dewis
- Cyflwyno

Parseli sydd wedi'u dewis


Yn ôl | Safio | Nesaf

Rhestr o Barseli

Yn y tabl isod mae pob un o'ch parseli tir cofrestredig, dewiswch y parseli tir sy'n bodloni'r meini prawf cymhwysedd rydych chi am eu cofrestru i'w Troi'n Organig. Gallwch ddefnyddio'r sgrin hon i ychwanegu parseli tir nad ydynt wedi'u cofrestru gyda RPW ar hyn o bryd, ond mae'n rhaid i chi gyflwyno ffurflen Rheoli Fy Nhir ochr yn ochr â'r cais hwn. Darllenwch y Haen Opsiynol yr SFS Troi'n Organig: llyfryn rheolau. i sicrhau bod y parseli tir yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd.

| Cyfeirnod y Daflen | Rhif y Cae | Enw'r Cae | Arwynebedd y Cae | Arwynebedd Organig Cymwys | Wedi'i ddewis | Ychwanegu Parsel Tir |
|---|---|---|---|---|---|---|
| SO0462 | 3722 | | 0.27 | 0.26 | | Addasu |
| SO0462 | 2810 | | 1.71 | 1.71 | ✔ | Addasu |
| SO0462 | 2722 | | 1.06 | 1.06 | | Addasu |
| SO0462 | 2633 | | 1.90 | 1.90 | | Addasu |
| SO0462 | 1715 | | 1.10 | 1.10 | ✔ | Addasu |
| SO0462 | 1107 | | 1.29 | 1.29 | | Addasu |
| SO0462 | 0721 | | 2.74 | 2.74 | | Addasu |
| SO0362 | 9416 | | 0.99 | 0.99 | | Addasu |
| SO0362 | 8023 | | 3.17 | 3.17 | | Addasu |
| SO0362 | 7315 | | 1.51 | 0.52 | | Addasu |
| SO0362 | 5031 | | 5.60 | 4.45 | ✔ | Addasu |
| SN9455 | 4407 | | 4.32 | 4.32 | | Addasu |
| SN9454 | 6020 | | 3.60 | 3.60 | | Addasu |
| SN9454 | 5999 | | 5.96 | 3.56 | | Addasu |
| SN9454 | 5668 | | 5.96 | 5.83 | | Addasu |

I ychwanegu Parsel Tir cliciwch ar y botwm Ychwanegu Parsel Tir


SFS Opsiynol: Cais Troi'n Organig

A | Help

- Cyflwyniad
- Hysbysiad Preifatrwydd
- Cymhwystra
- Parseli sydd wedi'u dewis
- Cyflwyno

Parseli sydd wedi'u dewis


Yn ôl | Safio | Nesaf

Rhestr o Barseli


Yn y tabl isod mae pob un o'ch parseli tir cofrestredig, dewiswch y parseli tir sy'n bodloni'r meini prawf cymhwysedd rydych chi am eu cofrestru i'w Troi'n Organig. Gallwch ddefnyddio'r sgrin hon i ychwanegu parseli tir nad ydynt wedi'u cofrestru gyda RPW ar hyn o bryd, ond mae'n rhaid i chi gyflwyno ffurflen Rheoli Fy Nhir ochr yn ochr â'r cais hwn. Darllenwch y Haen Opsiynol yr SFS Troi'n Organig: llyfryn rheolau. i sicrhau bod y parseli tir yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd.

| Cyfeirnod y Daflen | Rhif y Cae | Enw'r Cae | Arwynebedd y Cae | Arwynebedd Organig Cymwys | Wedi'i ddewis | Ychwanegu Parsel Tir |
|---|---|---|---|---|---|---|
| SO0462 | 3722 | | 0.27 | 0.26 | | Addasu |
| SO0462 | 2810 | | 1.71 | 1.71 | ✔ | Addasu |
| SO0462 | 2722 | | 1.06 | 1.06 | | Addasu |
| SO0462 | 2633 | | 1.90 | 1.90 | | Addasu |
| SO0462 | 1715 | | 1.10 | 1.10 | ✔ | Addasu |
| SO0462 | 1107 | | 1.29 | 1.29 | | Addasu |
| SO0462 | 0721 | | 2.74 | 2.74 | | Addasu |
| SO0362 | 9416 | | 0.99 | 0.99 | | Addasu |
| SO0362 | 8023 | | 3.17 | 3.17 | | Addasu |
| SO0362 | 7315 | | 1.51 | 0.52 | | Addasu |
| SO0362 | 5031 | | 5.60 | 4.45 | ✔ | Addasu |
| SN9455 | 4407 | | 4.32 | 4.32 | | Addasu |
| SN9454 | 6020 | | 3.60 | 3.60 | | Addasu |
| SN9454 | 5999 | | 5.96 | 3.56 | | Addasu |
| SN9454 | 5668 | | 5.96 | 5.83 | | Addasu |


Os rhowch fanylion parsel anghywir bydd y neges canlynol yn ymddangos




Os rhowch barsel sydd eisoes wedi'i gofrestru, yna bydd y neges canlynol yn ymddangos.



Wrth ichi ychwanegu a dad-ddewis parseli bydd cyfanswm yr arwynebedd cymwys yn cael ei ddangos yma yn ogystal â chyfanswm nifer y parseli sydd wedi'u dewis.






Os ydych yn  ychwanegu neu dad-ddewis parseli cliciwch ar y botwm **Safio** i adnewyddu'r dudalen i sicrhau ei fod yn dangos y cyfanswm cywir. Unwaith y byddwch wedi cwblhau rhoi'r wybodaeth i fewn cliciwch ar y **Botwm Nesaf**.

Unwaith caiff yr cais o Ddiddordeb ei gyflwyno, ni fedr ddiwigio'r parseli a wnaethoch ei dewis.


# Tudalen Gyflwyno – Gwallau, Gwybodaeth a Chrynodeb

Mae hyn yn rhoi crynodeb o'r eitemau rydych chi wedi'u dewis ac yn eich hysbysu am unrhyw gamgymeriadau neu negeseuon gwybodaeth ar eich cais.







Unwaith y byddwch wedi gwirio'r crynodeb ac wedi cywiro unrhyw wallau cliciwch ar y botwm **Nesaf**.




# Tudalen Gyflwyno – Datganiadau ac Ymrwymiadau

Mae’n rhaid ichi ddarllen y Datganiadau ac Ymrwymiadau a **thiciwch** y blwch i gadarnhau eich bod wedi eu darllen a’ch bod yn cytuno â nhw.





Unwaith eich bod wedi darllen a chytuno â’r Datganiadau a’r Ymrwymiadau cliciwch ar y botwm **Nesaf**.




# Tudalen Gyflwyno – Cyflwyno

I gyflwyno eich Cais Trosi Organig, cliciwch ar y Botwm **Cyflwyno**




Unwaith y byddwch wedi cyflwyno, byddwch yn derbyn cadarnhad y gallwch ei argraffu ar gyfer eich cofnodion eich hun.




Unwaith caiff yrcais ei gyflwyno, ni fedr ddiwigio’r eitemau a wnaethoch ei dewis.

## Yn Dilyn Cyflwyno Llwyddiannus

Bydd crynodeb o'ch SFS Opsiynol: Trosi’n Organig cais a gyflawnwyd yn cael ei ychwanegu at y dudalen ‘Negeseuon’ ar eich cyfrif RPW Ar-lein o dan y teitl “Dogfennau a dderbyniwyd gan RPW”. Gwnewch yn siŵr eich bod yn gwirio’r wybodaeth a gyflwynwyd yn drylwyr. Os oes unrhyw wybodaeth yn anghywir, anfonwch ateb i’r Neges yn rhoi manylion eich pryderon. Dylech wneud hyn cyn gynted ag y bo modd ar ôl dod o hyd i wybodaeth anghywir.

Os ydych yn cael trafferth neu os nad ydych yn gallu gweld ein gwefan, ffoniwch Ddesg Gymorth RPW Ar-lein ar 0300 062 5004.

## Beth sydd yn digwydd Nesaf

Bydd pob datganiad o ddiddordeb cymwys a dderbynnir gan Lywodraeth Cymru yn cael ei ystyried i'w ddewis.

Bydd y broses ddewis yn edrych ar bosibiliadau pob cais i gyfrannu at gyflawni nodau'r SFS Opsiynol: Troi’n Organig.

Bydd y ceisiadau hynny sy'n gwneud y mwyaf i gefnogi'r farchnad organig a'r amrywiaeth o fuddion amgylcheddol trwy reolaeth organig holistaidd yn cael y sgôr uchaf.Am fwy o wybodaeth am y broses sgorio a dethol darllenwch y SFS Opsiynol: Troi'n Organig Llyfryn Rheolau.

Os cynigir contract ichi, rhaid ichi dderbyn neu wrthod y cynnig o fewn 21 diwrnod calendr i ddyddiad y cynnig.

Pan fydd contract wedi cael ei gynnig, ni chewch wneud unrhyw newidiadau.

Os nad ydych yn derbyn eich contract o fewn 21 diwrnod calendr, bydd y cynnig yn cael ei dynnu'n ôl.

Byddwn yn cyhoeddi nodyn atgoffa ichi drwy eich cyfrif RPW Ar-lein cyn y dyddiad cau a nodir yn eich llythyr.

## Cysylltiadau

### RPW Ar-lein

Gallwch fynd at wasanaethau RPW Ar-lein trwy Borth y Llywodraeth yn www.gateway.gov.uk, neu ar ôl ichi gofrestru ar gyfer gwasanaethau RPW Ar-lein, ewch i RPWArlein. Os nad ydych wedi cofrestru eto ag RPW Ar-lein, ewch i wefan Llywodraeth Cymru am wybodaeth ar sut i gofrestru neu ffoniwch Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid ar 0300 062 5004.

### Ymholiadau - y Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid

Ar gyfer eich holl ymholiadau, cysylltwch â'r Cysylltu â Thaliadau Gwledig Cymru RPW

Gallwch ofyn cwestiwn unrhyw bryd ar RPW Ar-lein unrhyw bryd.

### Mynediad at swyddfeydd Llywodraeth Cymru ar gyfer pobl ag anableddau neu anghenion arbennig

Os oes gennych anghenion arbennig a'ch bod yn teimlo nad yw ein cyfleusterau yn ateb y gofynion, cysylltwch â'r Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid ar 0300 062 5004 i gael swyddogion Llywodraeth Cymru wneud trefniadau addas ar eich cyfer.

### Gwefan Llywodraeth Cymru

I weld yr wybodaeth ddiweddaraf am amaethyddiaeth a materion gwledig, ewch i wefan Llywodraeth Cymru. Bydd cyfle ichi gofrestru arni am y daflen e-newyddion, Gwlad